

Gobeithion i Gymru Adborth dan 7 oed



Cyflwyniad

Pwrpas y stori hon yw rhoi adborth am ganlyniadau ein harolwg 'Gobeithion i Gymru' i blant o dan 7 oed.

Cafodd arolwg 'Gobeithion i Gymru' ei lansio ym mis Hydref 2022 gan Gomisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes MBE. Pwrpas yr arolwg oedd gwrando ar y pethau sydd mwyaf pwysig i blant yng Nghymru a defnyddio'r wybodaeth i osod ei blaenoriaethu a chynllun gwaith.

Ymatebodd tua 8,800 o blant a phobl ifanc i'r arolwg, gan gynnwys 400 o blant o dan 7 oed. Hefyd wnaethom ymgynghori gyda dros 1,300 o rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Beth fyddwch angen:

- Copi o'r stori
- [Pwynt pŵer](#) o luniau a phropiau (gweler rhestr isod)

Mae'r [pwynt pŵer](#) yn cynnwys lluniau o beth mae plant wedi dweud wrthym yn yr arolwg. Efallai byddwch eisiau cynnwys propiau ychwanegol i gefnogi dealltwriaeth eich dysgwyr. Gallwch guddio'r propiau mewn bagiau neu focsys a gofyn i blant eu tynnu nhw allan un peth ar y tro.

Rhestr o bropiau defnyddiol:

ROCIO CIFUENTES

- Llun o Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru

HAPUS

- Teulu — teulu o ddoliau / llun o deulu
- Chwarae — hoff degan neu bêl
- Gofodau allanol e.e. parciau, gerddi, traethau — brigau, tywod, porfa

IACH

- Diet iachus — propiau bwyd iachus
- Ymarfer corff — ystum ioga / pêl rygbi neu bêl droed / dillad ymarfer corff
- Gofalu am hylendid e.e. golchi dannedd, golchi dwylo/corff — sebon / brwsh dannedd / sbwng

DIOGEL

- Mam neu Dad — teulu o ddoliau / llun o deulu
- Athro/ Ysgol — llun o athro neu'r ysgol/ llun o logo'r ysgol
- Gwasanaethau Brys — het heddlu neu ddiffoddwr tân / doliau gwasanaethau brys

CYNLLUN GWAITH ROCIO

- Sicrhau bod gan deuluoedd arian a'r pethau maent angen
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael eu trin yr un peth gyda charedigrwydd
- Sicrhau bod oedolion yn gwrando ar blant



Stori

Dyma Rocio. Rocio yw Comisiynydd Plant Cymru. (dangos llun)

Swydd Rocio yw sicrhau bod plant yn hapus, iach a diogel. (y stroriwr yn dewis gweithred ar gyfer bob gair er mwyn ailadrodd trwy gydol y sesiwn)

Llynedd aeth Rocio ar antur o gwmpas Cymru er mwyn darganfod pa bethau sydd yn cadw plant yn hapus, iachus a diogel. Hefyd gofynnodd hi sut gall Cymru fod yn lle gwell i blant.

Siaradodd hi gyda dros 8,000 o blant fel chi i ddarganfod hyn.

Gallwch chi ddyfalu beth ddywedodd plant sydd yn gwneud iddynt deimlo'n hapus?

(dangoswch luniau i annog ar bwynt pŵer neu trwy bropiau - dyma oedd yr atebion mwyaf cyffredin yn yr arolwg)

- Teulu
- Chwarae
- Gofodau allanol e.e. parciau, gerddi, traethau
-

Gallwch chi ddyfalu beth ddywedodd plant oedd yn gwneud iddynt deimlo'n iachus?

(dangoswch luniau i annog ar bwynt pŵer neu trwy bropiau - dyma oedd yr atebion mwyaf cyffredin yn yr arolwg)

- Diet iachus
- Ymarfer Corff
- Gofalu am hylendid e.e. golchi dannedd, golchi dwylo/corff
-

Gallwch chi ddyfalu beth ddywedodd plant oedd yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel?

(dangoswch luniau i annog ar bwynt pŵer neu trwy bropiau - dyma oedd yr atebion mwyaf cyffredin yn yr arolwg)

- Mam neu dad
- Athro/ ysgol
- Gwasanaethau brys e.e. diffoddwyr tân neu'r heddlu

Hefyd dywedodd blant wrth Rocio beth oedden yn credu byddai'n gwneud Cymru'n lle gwell i fyw. Helpodd hyn Rocio i wybod beth ddylai hi wneud i helpu. Dyma rhai o'r pethau mae Rocio'n gobeithio i wneud dros y tair blynedd nesaf.

- Sicrhau bod gan deuluoedd arian a'r pethau maent angen
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael eu trin yr un peth gyda charedigrwydd
- Sicrhau bod oedolion yn gwrandao ar blant

Mae Rocio eisiau dweud diolch mawr am helpu gwneud pethau'n well i blant yng Nghymru.

Y diwedd.

